Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad Apêl

---

gan Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 03.10.2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02266-M7C2M1

Cyfeiriad y safle: Leeward, Lôn Rhoslyn, Abersoch, Pwllheli LL53 7BB

---

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio o dan adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer datblygu tir heb gydymffurfio â'r amodau yr oedd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt.
- Gwneir yr apêl gan Mr Mark Keeley yn erbyn penderfyniad Cyngor Gwynedd.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf C22/0641/39/AC, dyddiedig 7 Gorffennaf 2022, yn rhannol drwy hysbysiad dyddiedig 26 Awst 2022.
- Roedd y cais yn ceisio caniatâd cynllunio i ddymchwel annedd bresennol a chodi annedd newydd, heb gydymffurfio ag amod a oedd yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio Cyf C22/0263/39/LL, dyddiedig 17 Mehefin 2022.
- Yr amod y mae dadl yn ei gylch yw Rhif 10, sy'n datgan: "Cyn trigo yn yr adeilad a ganiateir trwy hyn, rhaid gosod gwydr cymylog yn y ddwy ffenestr ystafell ymolchi llawr cyntaf ar yr edrychiad ochr yn ogystal â ffenestr ystafell wisgo ac ystafell ymolchi *en-suite* llawr cyntaf ar yr edrychiad cefn. Cyflwynir manylion y gwydr hwnnw i'r awdurdod cynllunio lleol a chael ei gymeradwyaeth ysgrifenedig yn gyntaf a rhaid i'r pedair ffenestr hyn gynnwys agoriadau uchel yn unig, hynny yw, ni chaniateir i unrhyw ran o'r ffenestri sy'n is nag 1.7m uwchlaw llawr yr ystafell y caiff ei gosod ynddi fod yn un sydd yn agor. Rhaid cadw'r ffenestri yn y cyflwr hwnnw yn barhaol wedi hynny".
- Y rheswm a roddwyd am yr amod yw: "Er mwyn gwarchod amwynderau preswyl cyfagos yn unol â pholisi PCYFF 2".
- Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 20 Mehefin 2023.

---

### Penderfyniad

1. Caniateir yr apêl a rhoddir caniatâd cynllunio i ddymchwel annedd bresennol a chodi annedd newydd yn Leeward, Lôn Rhoslyn, Abersoch, Pwllheli LL53 7BB yn unol â chais Cyf C22/0641/39/AC, dyddiedig 7 Gorffennaf 2022, heb gydymffurfio ag amod rhif 10 a osodwyd yn flaenorol ar ganiatâd cynllunio Cyf C22/0263/39/LL, dyddiedig 17 Mehefin 2022, a'r cynlluniau a gyflwynwyd gydag ef, yn ddarostyngedig i'r amodau sydd wedi'u hamlinellu yn rhestr amodau'r penderfyniad.

**Materion gweithdrefnol**

2. Fe wnaeth y Cyngor wrthod yn rhannol, a chaniatáu yn rhannol, cais Cyf C22/0641/39/AC i beidio â chydymffurfio ag un o amodau cynllunio'r caniatâd cynllunio gwreiddiol ar gyfer y datblygiad Cyf C22/0263/39/LL. Rhoddwyd y caniatâd hwn ym mis Mehefin 2022 i ddymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd newydd. Mae'r apêl hon yn erbyn cais Cyf C22/0641/39/AC, sy'n wrthodiad rhannol ac yn benderfyniad rhanedig o dan Adran 73 y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd.
3. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio Cyf C22/0263/39/LL am yr eildro, a nodwyd fel Fersiwn 2 ac a oedd yn ddyddiedig 30 Awst 2022. Mae'r penderfyniad hwn, dyddiedig Awst 2022, yn cynnwys yr un caniatâd cynllunio ac amodau â'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mehefin 2022. At ddibenion yr apêl Adran 73, gellir anwybyddu'r ail ganiatâd hwn.
4. Mae cyflwyniad yr apelydd yn gywir o ran ei ddehongliad o Adran 73. O'r hyn rwyf wedi'i ddarllen, mae'r apelydd yn apelio yn erbyn Cyf C22/0641/39/AC, sy'n ymwneud â'r cais gwreiddiol, sef Cyf C22/0263/39/LL, a roddwyd ar 17 Mehefin 2022. Er bod hawl i apelio yn erbyn yr ail fersiwn o gais Cyf C22/0263/39/LL, dyddiedig 30 Awst 2022, nid oes fawr o ddiben i hynny, gan y gall yr apelydd ddewis pa ganiatâd cynllunio sy'n cael ei roi ar waith. Fel y nodwyd uchod, gan fod yr apêl hon wedi'i chaniatáu, byddai hyn, yn ei dro, yn cyhoeddi caniatâd cynllunio arall ar gyfer y safle heb yr amod sy'n destun dadl, ond gan ailadrodd yr holl amodau eraill nad oedd dadl yn eu cylch ac sy'n dal i fodoli ac yn gallu dod i rym.
5. Roedd caniatâd cynllunio Cyf C22/0641/39/AC yn caniatáu amrywiad i amod 10, dim ond i'r graddau nad oes angen cyflwyno manylion am y ffenestri yn ysgrifenedig i'w cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'r Cyngor yn mynnu o hyd fod angen i bob un o'r pedair ffenestr hyn gynnwys gwydr cymylog a rheoli'r ffordd y mae'r rhain yn agor os ydynt o dan 1.7m o'u mesur o lawr yr ystafell, lle y cânt eu gosod.
6. Mae'r anghydfod yn codi mewn perthynas ag un ffenestr yn y cefnlun, sy'n ystafell wisgo ar y cynlluniau a gyflwynwyd. Mae'r apelydd yn gofyn nad yw'r ffenestr hon yn cynnwys gwydr cymylog o gwbl ac y dylid hepgor unrhyw gyfeiriad at y ffenestr hon yn yr amod y mae dadl yn ei gylch.

**Prif fater**

7. Y prif fater yw'r effaith y byddai amrywio'r amod yn ei chael ar amodau byw preswylwyr cyfagos o ran preifatrwydd. Fel y nodwyd, mae'r amrywiad arfaethedig yn ymwneud ag un ffenestr yn yr ystafell wisgo.

**Rhesymau**

8. Mae Leeward wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer annedd ddeulawr â phedair ystafell wely, sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Byddai'r ystafelloedd gwely ar y llawr cyntaf, gyda'r lolfa, y gegin a'r ystafell fwyta, parlwr cefn ac ystafell amlbwrpas ar y llawr gwaelod. Mae'r trefniant hwn yn wahanol i'r cynllun a wrthodwyd yn flaenorol, a ystyriwyd mewn apêl yn 2021 o dan gyfeirnod APP/Q6810/A/21/3279835. Roedd y cynnig hwnnw ar gyfer annedd dros di llawr, gyda'r gegin, lolfa a mannau bwyta ar y llawr uchaf, gydag ardaloedd gwydrog mawr yn arwain at falconi. Mae'r cynllun cymeradwy yn sylweddol wahanol i'r un a wrthodwyd gynt mewn apêl ac ni ellir ei gymharu o ran yr effaith ar breifatrwydd.
9. Mae Leeward, sydd wrthi'n cael ei hadeiladu, wedi'i chyfeirio fel ei bod ar ongl i'r ffordd. Mae'r berthynas â North Landing ar ongl hefyd ac nid yw'n llinell olygfa uniongyrchol, fel y byddai'n wir gydag adeiladu sy'n wynebu ei gilydd ar blân llorweddol. Mae North

Landing a’i chymydog, Harbour Cottage, ar lefel is na Leeward hefyd. O ran egwyddorion cynllunio, mae’r safle o fewn yr anheddiad ac mae’n llain mewnlenwi mewn ardal breswyl sydd â budd caniatâd cynllunio.

10. Gwelais y safle o’r ffenestr y mae dadl yn ei chylch, a oedd yn cael ei hadeiladu ar adeg fy ymweliad. Roeddwn yn gallu gwerthfawrogi’r berthynas o lefel y ffenestr i North Landing, a’r tirlunio sefydledig a oedd yn ei le eisoes. Mae’r olygfa ar ongl ac nid yw’n olygfa uniongyrchol. Mae North Landing yn gyfochrog â’i ffin gefn, tra mae safle Leeward yn drionglog, a byddai Leeward ar ongl i North Landing yn bennaf. Nid yw’r berthynas rhyngddynt yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. Er bod y talcen cefn yn North Landing wedi’i wydro’n bennaf ac ar lefel is, nodir y pellter gwahanu fel 26m yng nghyflwyniad yr apelydd. Ar ôl asesu’r cynlluniau a gyflwynwyd ac edrych ar y safle a’r ardal gyfagos, rwyf o’r farn bod y pellter hwn yn lled gywir o ran amgylchiadau’r achos hwn. Fel arfer, dylai anheddau cefn-wrth-gefn uniongyrchol a chyfochrog fod â phellter gwahanu o 21m a chaiff hyn ei dderbyn yn gyffredinol mewn penderfyniadau rheoli datblygu arferol. Mae’r sefyllfa hon yn wahanol fod y pellter gwahanu yn fwy na 21m ac nid yw’n uniongyrchol ac yn gyfochrog.

11. Hyd yn oed pe byddwn yn ystyried pellter gwahanu Cyngor Wrecsam, sy’n ystyried goledd, byddai’r cynnig yn cydymffurfio â’r pellter gwahanu a ganiateir yno, gan fy mod yn cytuno â chyfrifiad yr apelydd ar wahaniaethau rhwng lefel y lloriau yn Leeward a North Landing. Fodd bynnag, ni allaf ddefnyddio arweiniad gan awdurdod arall a’i gymhwyso yn ardal yr awdurdod hwn. Nid oes gan Wynedd unrhyw arweiniad gwahanu i'w gymhwyso, ac felly nid oes unrhyw fesur a all fod yn berthnasol, felly mae’n fater o ddyfarniad cynllunio sy’n berthnasol i amgylchiadau’r achos ar ôl ei weld o ymweliad â’r safle. Felly, rwy’n diystyru awgrym y parti â buddiant y dylid defnyddio arweiniad awdurdod arall yng Ngwynedd.

12. Rwyf hefyd yn diystyru’r penderfyniadau apêl o Reading a Stratford gan bartïon â buddiant. Fel y nodwyd yn ymateb yr apelydd, mae’r rhain yn safleoedd gwahanol â nodweddion perthynas gwahanol iawn i ddatblygiad yr apêl. Cytunaf â’r apelydd yn achos Reading y byddai’r annedd arfaethedig wedi bod o fewn 2m i’r ffin gyfagos. Yn achos Stratford, roedd safon fabwysiedig i’w chymhwyso, ond nid yw hynny’n wir yn yr achos hwn. Gellir gwahaniaethu rhwng yr achosion apêl hyn a datblygiad yr apêl.

13. I liniaru ymhellach unrhyw effaith ar breifatrwydd, yn ogystal â’r hyn a grybwyllwyd yn ymwneud â phellter, goledd a chyfeiriadedd, mae cryn dipyn o dirlunio sefydledig ar ffiniau’r safle. Mae’r llwyni trwchus hyn yn cuddio golygfa’r talcen allanol y tu cefn i North Landing ac annedd Harbour Cottage o ffenestr ystafell wisgo Leeward.

14. Rwyf o’r farn bod y cyflwyniad i gael gwared â’r gwydr cymylog o ffenestr yr ystafell wisgo yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â Pholisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026. Rwyf hefyd o’r farn nad yw’r adolygiad a ganiatawyd eisoes gan y Cyngor i beidio â mynnu bod manylion yn cael eu cyflwyno yn dderbynion, gan fod digon o reolaeth yn bodoli yng ngeiriad yr amod a awgrymwyd gan yr apelydd.

15. Mae partïon â buddiant wedi awgrymu y gallai’r ystafell wisgo gael ei newid yn ystafell wely yn ddiweddarach. Mae hynny’n gwbl bosibl ac yn dderbyniol o ran preifatrwydd. Gwneir sawl cyfeiriad at benderfyniad yr Arolygydd blaenorol, ond roedd hwn yn asesu cynnig hollol wahanol i ddatblygiad yr apêl. Rwyf wedi ystyried y pryderon yn ymwneud â phreifatrwydd a’r amgyffrediad bod yr annedd yr edrych drostynt. Rwyf hefyd wedi ystyried materion eraill sy’n cael eu codi yn ymwneud â natur ormesol a llethol y datblygiad. Fodd bynnag, mae caniatâd cynllunio wedi’i roi a bydd yn bodoli’n ddilyffethair beth bynnag fydd canlyniad yr apêl hon. Ni welaf unrhyw broblem o ran edrych drosodd yn yr achos hwn, a fyddai’n haeddu gwrthodiad, a chaiff hyn ei asesu o’m harchwiliad safle. Ni ddylai unrhyw effaith ganfyddedig ar breifatrwydd arwain at effaith andwyol os

yw'r effaith yn dderbyniol mewn termau real ac na fyddai'n lleihau amodau byw. Nid yw'r mater o godwyd mewn perthynas â graddau ffenestr cymylog yn ffactor, o ystyried fy nghasgliad ar y mater. Ystyriwyd yr holl faterion eraill a godwyd gan bartïon â buddiant, ond nid oes yr un ohonynt yn gorbwyso fy nghasgliad ar y prif fater penderfynol yn yr apêl hon.

16. Deuaf i'r casgliad na fyddai amrywio'r amod yn niweidio amodau byw preswylwyr cyfagos mewn perthynas â phreifatrwydd. Deuaf i'r casgliad bod yr amod sy'n destun dadl yn ddiangen, yn amherthnasol i'r amgylchiadau cynllunio ac yn amherthnasol i'r datblygiad a ganiateir ac nad yw'n rhesymol mewn ffyrdd eraill, o ystyried Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.

**Amodau**

17. Mae'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn nodi'n glir y dylai hysbysiadau o benderfyniad i roi caniatâd cynllunio o dan Adran 73 ailadrodd yr amodau perthnasol (yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol) o'r hysbysiad o benderfyniad gwreiddiol. Gan nad oes gennyf unrhyw wybodaeth ger fy mron am statws yr amodau eraill a osodwyd yn yr hysbysiad o benderfyniad gwreiddiol, byddaf yn gosod pob un o'r rheiny eto. Os oes rhai ohonynt wedi'u rhyddhau, mae hwnnw'n fater y gall y partïon fynd i'r afael ag ef. Byddaf yn dileu cyfeiriad at yr ymod i ddechrau cyn pen pum mlynedd, gan fod y datblygiad wedi'i ddechrau. Byddaf yn adolygu amod y cynlluniau yn unol â hynny. Rwyf wedi gosod a geiriad a awgrymwyd gan yr apelydd ar gyfer yr amod y mae anghydfod yn ei gylch. Mae hwn bellach yn ymddangos fel amod Rhif 9 yn y rhestr atodedig. Mae'r holl resymau dros yr amodau wedi'u nodi isod.

**Casgliadau**

18. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn cydymffurfio ag egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf trwy ei gyfraniad ar amcan llesiant Gweinidogion Cymru i wneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi yn lleoedd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddynt.

19. Am y rhesymau a roddir uchod, deuaf i'r casgliad y byddai'r apêl lwyddo. Byddaf yn rhoi caniatâd cynllunio newydd heb yr amod y mae anghydfod yn ei gylch ac yn gosod amod newydd fel y crybwyllir, ynghyd â thynnu dechrau'r amod datblygu ac yn cyfnewid yr amod yn ymwneud â chynlluniau ag un arall ac yn adfer yr amodau hynny nad oes anghydfod yn eu cylch sy'n bodoli o hyd ac a all gael eu rhoi ar waith.

*Iwan Lloyd*

AROLYGYDD

---

**RHESTR AMODAU yn ymwneud ag Apêl Cyf: CAS-02266-M7C2M1**

1) Caiff y datblygiad ei gyflawni'n unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol: PL-01 Revision F, PL-12 Revision D, PL-13 Revision B.

   Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei gyflawni'r unol â'r cynlluniau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais.

2) Caiff to'r adeilad ei orchuddio â llechi Cymreig naturiol, y dylai'r lliw gael ei gytuno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol neu â llechi o liw, gwead a nodweddion hindreulio cyffelyb, a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er amwynder gweledol.

3) Bydd gorffeniad allanol yr adeilad fel y cytunir yn ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd hwn.

Rheswm: Er amwynder gweledol.

4) Ni chaniateir unrhyw waith datblygu na chlirio'r safle nes y bydd cynllun tirlunio wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.

Rheswm: Er budd i'r amgylchedd ac amwynder gweledol.

5) Caiff yr holl blannu, hadu neu dywarchu sydd wedi'u cynnwys yn y manylion tirlunio cymeradwy gael ei gyflawni yn ystod y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl meddiannu'r adeilad neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag sydd gyntaf; a bydd unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu eu heintio, yn cael eu hamnewid yn y tymor plannu nesaf ag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

Rheswm: Er budd i'r amgylchedd ac amwynder gweler.

6) Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu neu gyfnod datblygu, gan gynnwys gwaith dymchwel/clirio'r safle, ddechrau nes y bydd Cynllun Rheoli Adeiladu (CMP) ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Dylai'r CMP gynnwys: • Dulliau adeiladu: manylion am sut y caiff y gwastraff sy'n cael ei greu ei reoli; • Rheolaeth Gyffredinol y Safle: manylion am y rhaglen adeiladu, gan gynnwys amserlen, manylion clirio'r safle; • Rheoli Niwsans: manylion am gyfyngiadau i'w gosod yn ystod y gwaith adeiladu, gan gynnwys amseriad, hyd ac amlder y gwaith; manylion am fesurau i leihau sŵn a dirgryniad o weithgareddau; manylion am fesurau rheoli llwch; • Rheoli Traffig: manylion am ddanfoniadau i'r safle, peiriannau ar y safle; • Atal Llygredd: dangos sut y caiff y Canllawiau Atal Llygredd ac arfer gorau perthnasol eu rhoi ar waith, gan gynnwys manylion am weithdrefnau gollyngiadau brys a chynllun ymateb i ddigwyddiadau. • Manylion am yr unigolion a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CEMP a manylion cyswllt brys. Caiff y CMP ei roi ar waith fel y'i cymeradwywyd yn ystod cyfnodau paratoi'r safle ac adeiladu'r datblygiad.

Rheswm: Dylid cyflwyno CMP i sicrhau y cytunir ar y mesurau rheoli angenrheidiol cyn dechrau datblygu a'i roi ar waith i ddiogelu amwynderau preswylwyr lleol yn ystod y gwaith adeiladu.

7) Rhaid cyflwyno manylion am y mesurau lliniaru, fel yr amlinellir yn adroddiad arolwg rhywogaethau gwarchodedig Cambrian Ecology, dyddiedig 11/06/20, i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig cyn cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn; yna, rhaid cyflawni a chwblhau'r datblygiad yn gwbl unol â'r argymhelliad a'r mesurau lliniaru a nodir yn yr adroddiad.

Rheswm: Er mwyn diogelu bioamrywiaeth leol.

8) Ni chaniateir i ddŵr wyneb a/neu ddraeniad tir gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Rheswm: Er mwyn atal gorlwytho hydrolig o'r system garthffosiaeth gyhoeddus, i warchod iechyd a diogelwch preswylwyr presennol a sicrhau nad oes unrhyw lygredd na niwed i'r amgylchedd.

9) Cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio at y dibenion preswyl a ganiateir trwy hyn, rhaid gosod gwydr cymylog yn y ddwy ffenestr yn yr ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf yn yr ystlyslun a'r ffenestr yn yr ystafell ymolchi *en-suite* ar y llawr cyntaf yn y cefnlun. Rhaid i'r tair ffenestr hyn gynnwys agoriadau brig yn unig ac ni fydd unrhyw rai o'r ffenestr

sy’n llai nag 1.7m uwchben llawr yr ystafell y’i gosodir ynddo yn agor. Rhaid cadw’r ffenestri yn y cyflwr hwnnw’n barhaol wedi hynny.

Rheswm: Er budd i amodau byw preswylwyr cyfagos, yn unol â pholisi PCYFF 2.

10) Heb ystyried darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y’i diwygiwyd ar gyfer Cymru) (neu unrhyw orchymyn sy’n dirymu ac yn ailddeddfu’r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu beidio), ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 2, Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwnnw yn caniatáu (o fewn yr ardal sy’n destun i’r caniatâd hwn) unrhyw ddatblygiad y cyfeirir ato yn nosbarthiadau A, B, C, D, E Rhan 1 o’r Ail Atodlen i’r Gorchymyn ac ni chaiff unrhyw ddatblygiad tebyg ei gyflawni yn yr ardal honno ar unrhyw adeg heb ganiatâd penodol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio â Pholisi CYF 6 yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

11) Heb ystyried darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy’n dirymu ac yn ailddeddfu’r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu beidio), ni chynhwysir unrhyw ffenestri/agoriadau heblaw’r rhai a gymeradwyir yn benodol gan y caniatâd hwn.

Rheswm: I ddiogelu amwynderau preswylwyr anheddau cyfagos.